



Cymraeg

Cyngor Dinas Casnewedd

Adroddiad Blynyddol

ar yr Iaith Gymraeg

2018-2019

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg
This document is available in English

I gael copi o'r ddogfen yma mewn unrhyw fformat arall
e.e. Breil, Print cysylltwch â:

To receive a copy of this document in any other format
e.g. Braille, large print etc. contact:

info@newport.gov.uk



Cynnwys

Cyd-destun Deddfwriaethol	1
Crynodeb Blynyddol Cyngor Dinas Casnewydd	2
Crynodeb 1: Safonau Darparu Gwasanaethau	3
Crynodeb 2: Safonau Llundio Polisi	3
Crynodeb 3: Safonau Gweithredol	3
Crynodeb 4: Safonau Hyrwyddo	3
Crynodeb 5: Cadw Cofnodion	4
Crynodeb 6: Strategaeth 5 Mlynedd y Gymraeg	4
Crynodeb 7: Symud Ymlaen.....	4
Sgiliau Staff.....	5
Hyfforddiant	9
Swyddi Newydd	10
Cwynion	11

Cyd-destun Deddfwriaethol

Mae'r adroddiad blynyddol hwn wedi'i baratoi yn unol â Safonau'r Gymraeg 158, 164 a 170. Bydd yr adroddiad hwn yn tynnu sylw at sut mae Cyngor Dinas Casnewydd (CDC) wedi cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg a gyflwynwyd i'r Awdurdod gan Gomisiynydd y Gymraeg yn [Hysbysiad Cydymffurfio Casnewydd](#).

Yn ogystal ag amlinellu cydymffurfiaeth gyffredinol yr Awdurdod, mae'r adroddiad hwn hefyd yn cynnwys yr wybodaeth benodol sy'n ofynnol gan y Safonau. Mae'r data hwn yn cynnwys nifer y cwynion yr ydym wedi'u derbyn, sgiliau Cymraeg ein staff, yr hyfforddiant yr ydym yn ei gynnig drwy gyfrwng y Gymraeg a lefel y Gymraeg yr ydym yn gofyn amdani ar gyfer swyddi gwag a swyddi newydd yr ydym wedi'u hysbysebu yn ystod y flwyddyn ariannol.

Crynodeb Blynyddol Cyngor Dinas Casnewydd

Mae Safonau'r Gymraeg wedi rhoi'r ysgogiad i CDC ymateb i her Llywodraeth Cymru i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus cwbl ddwyieithog. Mae'r adroddiad blynyddol hwn hefyd yn adlewyrchu'r cynnydd cadarnhaol y mae'r Awdurdod wedi'i wneud tua'r nod hwn, gan dynnu sylw hefyd at y gwaith sydd ar ôl i'w wneud.

Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu agwedd gyfannol at weithredu newid, gan ddyrannu cyfrifoldeb i wasanaethau a rhoi trefniadau llywodraethu ar waith drwy'r Grŵp Cydraddoldeb Strategol, Grŵp Gweithredu'r Gymraeg ac is-grwpiau gorchwyl a gorffen amrywiol.

Mae CDC yn parhau i fuddsoddi yn y Gymraeg, gyda chyllideb Cymraeg a chydaddoldeb i gefnogi mabwysiadu'r safonau yn fewnol ac i hwyluso partneriaethau a mentrau cymunedol. Fodd bynnag, dros y 12 mis diwethaf mae'r Awdurdod hefyd wedi gwneud nifer o arbedion effeithlonrwydd, gan gynnwys symud at wasanaeth cyfieithu canolog, sy'n cyfieithu swm aruthrol o ddeunydd i'r Awdurdod.

Fel yn ein hadroddiad blynyddol blaenorol, ac fel y cyfeiriwyd atynt yn ein heriau swyddogol o Hysbysiad Cydymffurfio'r Comisiynydd, mae nifer o gyfyngiadau yn parhau sydd yn ymwneud a systemau TG a etifeddwyd nad ydynt yn gallu cydymffurfio ar hyn o bryd â Safonau'r Gymraeg. Fodd bynnag, wrth i'r rhain gyrraedd diwedd eu hoes weithredol byddant yn cael eu disodli gan systemau a fydd wedi ystyried gofynion y Gymraeg ar ddechrau'r broses gaffael.

Y llynedd fe nododd yr Awdurdod nifer o flaenoriaethau yr oedd am eu cyflawni ym mlwyddyn ariannol 18/19, gan gynnwys rhaglen siopwr cudd, canllawiau asesiad effaith gwell ac integredig, a datblygiad pellach o ran Strategaeth Gymraeg 5 Mlynedd yr Awdurdod. Mae'r adroddiad hwn yn dangos bod yr Awdurdod wedi gwneud cynnydd tuag at lawer o'r amcanion hyn. Fodd bynnag, fel y bu'r achos mewn blynyddoedd a fu, bydd angen i'r Awdurdod barhau â'r momentwm er mwyn sicrhau gweithredu unffurf ar Safonau'r Gymraeg.

Rydym wedi nodi nifer o gamau a fydd yn ein helpu ni i barhau â'r momentwm ym mlwyddyn ariannol 2019/20:

- Gwaith ar ddatblygu a hyrwyddo'r broses Asesiad Effaith ar Degwch a Chydaddoldeb (AETC) a ddiweddarwyd
- Mwy o hyrwyddo ar wasanaethau Cymraeg y cyngor
- Datblygu a chyflawni hyfforddiant addas ar ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ar draws y sefydliad
- Gwella gweithio mewn partneriaeth rhwng aelodau Fforwm y Gymraeg yn unol â strategaeth y Gymraeg
- Datblygu'r rhyngwyd er mwyn cynnwys canllawiau Cymraeg ynglŷn â chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg

Crynodeb 1: Safonau Darparu Gwasanaethau

Mae adolygiad o'n cydymffurfiaeth â'r Safonau Darparu Gwasanaethau yn dangos y cynnydd cadarnhaol y mae'r Awdurdod wedi'i wneud wrth ddarparu gwasanaethau dwyieithog i aelodau'r cyhoedd. Fodd bynnag, mae'n parhau'n amlwg nad yw gwasanaethau'r Awdurdod yn cydymffurfio'n gyson. Gan fod y corff safonau hwn yn ymwneud a gwasanaethau rheng flaen, bydd y safonau yn parhau'n flaenoriaeth i ni.

Yn ystod 2018-19 fe gomisiynodd yr Awdurdod ymarfer siopwr cudd annibynnol i werthuso lefel y gydymffurfiaeth ar draws y cyngor. Mae'r canlyniadau yn cael eu hystyried ar hyn o bryd a bydd y canfyddiadau yn cael eu prif-ffrydio i'n strategaeth wella ar gyfer y flwyddyn ariannol i ddod.

Crynodeb 2: Safonau Lluo Polisi

Mae gwell cyfarwyddiadau o ran safonau Lluo Polisi wedi'u rhoi i staff drwy ein canllaw ar Aseidiadau Tegwch a'r Effaith ar Gydraddoldeb (AETC), sydd bellach ar gael ar ein mewnrwyd staff. Tra bo'r canllaw hwn wedi cryfhau amlygrwydd y Gymraeg ochr yn ochr ag ystyriaethau cydraddoldeb eraill, mae angen mwy o waith o hyd er mwyn sicrhau bod prosesau sy'n ymwneud â safonau creu polisi yn cael eu dilyn yn unffurf gan bawb. Mewn ymateb i hyn, bydd yr Awdurdod yn ymgysylltu'n fwy â staff yn y maes hwn ac yn ymgorffori canllawiau AETC mewn pecyn cynhwysfawr o gyfathrebiadau staff.

Mae'r gwaith ar ddatblygu canllawiau ar ddyroddi grantiau a chontractau yn parhau i fynd rhagddo, ac mae'n destun grŵp gorchwyl a gorffen mewnol, sydd wedi ei gysylltu a chyflawniad yr Awdurdod ar Gôd Ymarfer newydd ar gyfer Cyflogaeth Foesebol mewn Cadwyni Cyflenwi. Adroddir am gynnydd yn erbyn y Cod Ymarfer hwn i'r Grŵp Cydraddoldeb Strategol ac o fewn yr Adroddiad Cydraddoldeb Blyneddol o 2019/20 ymlaen.

Crynodeb 3: Safonau Gweithredol

Mae ein tîm Adnoddau Dynol yn parhau i weithio er mwyn sicrhau bod cydymffurfiaeth ar draws nifer o'r Safonau Gweithredol yn cael ei chynnal. Dros y 12 mis nesaf bydd yr Awdurdod yn ceisio gwneud gwell defnydd o'i ddata staffio fel y gall fod yn fwy strategol a phenodol wrth gynllunio'r gweithlu a dyrannu adnoddau hyfforddi.

Mae gwaith yn parhau i ddatblygu polisi ar gyfer defnyddio Cymraeg yn fewnol gyda chyfeiriad penodol at sut y caiff ei hyrwyddo a'i hwyluso o fewn y cyngor a chynyddu ymwybyddiaeth cyflogeion o'u hawliau i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith.

Crynodeb 4: Safonau Hyrwyddo

Ym mis Mawrth 2017, gwnaeth y Cabinet a'r Cyngor gymeradwyo'r [Strategaeth y Gymraeg 2017-2022](#) ar gyfer y ddinas. Mae'r Strategaeth ar gael ar wefan yr Awdurdod, ac mae'n pennu sut y byddwn yn hyrwyddo'r Gymraeg dros y pum mlynedd nesaf. Ar hyn o bryd, adroddir am gynnydd wrth y Grŵp Cydraddoldeb Strategol tra bod cyflawniad gweithredol yn gyfrifoldeb ar nifer o weithgoreu:

- Fforwm y Gymraeg mewn Addysg a Grŵp Hyrwyddo'r Gymraeg mewn Addysg, a arweinir gan y cyngor ac sy'n cynnwys sefydliadau partner lleol

- Grŵp Gweithredu'r Gymraeg, sef grŵp mewnol y cyngor sy'n cynnwys Norse Casnewydd a Casnewydd FYW
- Fforwm Iaith Casnewydd dan arweiniad Menter Iaith Casnewydd

Crynodeb 5: Cadw Cofnodion

Mae'r Awdurdod wedi nodi trwy ei broses monitro mewnol ei fod yn parhau i gydymffurfio yn y maes hwn. Dros y 12 mis diwethaf mae'r Awdurdod wedi cyflwyno system Rheoli Perthnasoedd â Chwsmeriaid (CRM) newydd sydd wedi gwella'r modd y mae'r Awdurdod yn cofnodi cwynion sy'n ymwneud â'r Gymraeg a gwasanaeth cwsmeriaid o ran dewis iaith.

Mae'r Awdurdod hefyd wedi datblygu Cynlluniau Gweithredu Gwasanaethau i fonitro gweithrediad y safonau ar draws y sefydliad. Mae'r Cynlluniau Gwasanaeth hyn yn eiddo i gynrychiolwyr y gwasanaeth o fewn Grŵp Gweithredu'r Gymraeg.

Crynodeb 6: Strategaeth 5 Mlynedd y Gymraeg

Wrth i'r Awdurdod ddechrau ar ail flwyddyn ei Strategaeth 5 Mlynedd y Gymraeg, rydym wedi llwyddo i wneud cynnydd nodedig yn erbyn rhai o'r amcanion a nodwyd yng nghynllun gweithredu'r Strategaeth.

Mae ymgyrch 'Manteision Dwyieithrwydd' yn parhau i gael ei chyflwyno sy'n hyrwyddo addysg Gymraeg ar draws Casnewydd. Mae'r [Llyfryn Manteision Dwyieithrwydd](#) wedi ei ddatblygu gan yr Awdurdod mewn partneriaeth glos â Menter Iaith Casnewydd ac wedi ei dderbyn yn gadarnhaol gan randdeiliaid. Mae'r ymgyrch wedi ei gryfhau gyda datblygu fideos yn annog rhieni i ystyried addysg Gymraeg i'w plant, gan gyfrannu at darged yr Awdurdod o gynyddu niferoedd y disgyblion sy'n derbyn Addysg Gymraeg.

Ar ben hynny, ym mllwyddyn ariannol 2018/19 lansiodd project allgymorth Cymraeg dynodedig Cyngor Dinas Casnewydd ar gyfer pobl Ddu, Asiaidd a Lleafrifoedd Ethnig (BAME), a oedd yn rhan o'r cynllun gweithredu gwreiddiol ar gyfer y Strategaeth 5 Mlynedd, ac y tynnwyd sylw ato gan Gomisiynydd y Gymraeg fel enghraifft o arfer gorau.

Crynodeb 7: Symud Ymlaen

Ar ddechrau'r flwyddyn ariannol nesaf, byddwn yn ymgymryd â dadansoddiad cynhwysfawr o'r bylchau er mwyn deall yn well ein sefyllfa bresennol o ran y Gymraeg, cydymffurfiaeth a'r modd y mae bodloni'r safonau yn arwain at wasanaethau gwell a newid yn niwylliant y gweithle. Bydd y dadansoddiad o fylchau hefyd yn ymgorffori canfyddiadau ein project Siopwr Cudd a gomisiynwyd ac yn hwyluso gallu adnabod nodau tymor byr, canolig a hir ar gyfer yr Awdurdod.

Byddwn hefyd yn gweithio i sicrhau cysondeb ar draws ein cynlluniau a'n strategaethau sefydliadol a chorfforaethol amrywiol, er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn rhan annatod o'n prosesau risg corfforaethol a pherfformiad, ac yn cael ei ystyried yn briodol wrth i ni wneud penderfyniadau. Caiff hyn ei arddangos ar ei orau efallai trwy integreiddio agenda'r Gymraeg i'r byrddau rheoli portffolio sydd newydd eu sefydlu.

Byddwn yn parhau i ddatblygu cysylltiadau â'n Fforwm Cymraeg ac yn ailystyried ein strategaeth hyrwyddo amlasiantaeth ar gyfer y Gymraeg, gyda'r nod o wella ymgysylltiad â rhanddeiliaid

Cymraeg allweddol. Wrth i ni symud tuag at ddatblygu ein Hysgol Gynradd Gymraeg newydd, byddwn yn sicrhau ein bod yn ymgysylltu â chymunedau ac yn datblygu strategaethau hyrwyddo a fydd yn cynyddu'r archwaeth dros addysg Gymraeg ymhellach.

Sgiliau Staff

Mae'r Awdurdod yn casglu gwybodaeth am allu staff i siarad Cymraeg drwy ofyn iddynt gofnodi lefel eu sgil o'u gwirfodd drwy'r porth Hunanasesu Cyflogeion. Ar 31 Mawrth 2019, roedd yr Awdurdod yn cyflogi 5842 o staff, gan gynnwys staff mewn ysgolion. Wedi'i amlinellu yn y tabl isod mae dadansoddiad o'r hyn a wyddys am eu gallu i siarad Cymraeg.

Sgiliau Cymraeg holl Gyflogeion hysbys CDC ar 31/03/19

Niferoedd 2016/17	Niferoedd 2017/18	Niferoedd 2018/19
6,147	5,949	5842

Nifer y Cyflogeion yn ôl Sgôr 2016/17					
Cymhwysedd Cymraeg	Dim	Dechreuwr	Canolradd	Uwch	Dim Cofnod
Darllen	2,782	1,135	210	158	1,833
Llafar	2,574	1,324	210	183	1,856
Deall	2,606	1,272	224	193	1,852
Ysgrifenedig	2,830	1,079	198	171	1,869
Canran y niferoedd	43.9%	19.6%	3.4%	2.9%	30.1%
Nifer y Cyflogeion yn ôl Sgôr 2017/18					
Cymhwysedd Cymraeg	Dim	Dechreuwr	Canolradd	Uwch	Dim Cofnod
Darllen	2,710	1,154	220	193	1,672
Llafar	2,531	1,329	217	189	1,683
Deall	2,546	1,290	233	198	1,682
Ysgrifenedig	2,764	1,101	208	177	1,699
Canran y niferoedd	44.3%	20.5%	3.7%	3.1%	28.4%
Nifer y Cyflogeion yn ôl Sgôr 2018/19					
Cymhwysedd Cymraeg	Dim	Dechreuwr	Canolradd	Uwch	Dim Cofnod
Darllen	2702	1156	208	211	1565
Llafar	2507	1342	211	206	1576
Deall	2523	1305	226	215	1573
Ysgrifenedig	2750	1,106	198	195	1593
Canran y niferoedd	44.9%	21.0%	3.6%	3.5%	27.0%

Isod ceir crynodeb o ddsbarthiad sgiliau Cymraeg staff ar draws amrywiol wasanaethau. Fel a ddangosir yn y tabl, ar hyn o bryd mae gan yr Awdurdod grynodiad uwch o staff â sgiliau Cymraeg yn gweithio mewn ysgolion nag sydd gennym yng ngwasanaethau eraill y cyngor.

Mae data staffio yn dangos y bydd angen i'r Awdurdod weithio dros y 12 mis nesaf i leihau nifer y staff nad ydynt wedi cofnodi eu gallu Cymraeg. Mae'r un data hefyd yn awgrymu y bydd angen arnom hefyd gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg uwch a chanolradd ar draws ein gwasanaethau.

Mae ein data'n awgrymu bod gennym 417 aelod o staff sydd naill ai â sgiliau Cymraeg llafar uwch neu ganolradd; fodd bynnag, o ddadansoddi lleoliad yr aelodau staff hyn ar draws yr awdurdod, gallwn weld bod y mwyafrif helaeth ohonynt mewn ysgolion, ac mai nifer cymharol fach yn unig sydd gennym o staff sy'n siarad Cymraeg o fewn ein gwasanaethau corfforaethol.

Mae'r nifer eithaf bach hwn o staff sy'n siarad Cymraeg yn parhau i fod yn un o'n cyfyngiadau mwyaf o ran ein gallu i sicrhau y darperir gwasanaethau Cymraeg dibynadwy i'r cyhoedd.

	Nifer y Cyflogeion Gwasanaethau Oedolion a Chymunedol yn ôl Sgôr 2018/19				
Cymhwysedd Cymraeg	Dim	Dechreuwr	Canolradd	Uwch	Dim Cofnod
Darllen	280	30	3	9	268
Llafar	270	39	5	8	268
Deall	270	37	5	9	269
Ysgrifenedig	285	23	2	9	271

	Nifer y Cyflogeion Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc yn ôl Sgôr 2018/19				
Cymhwysedd Cymraeg	Dim	Dechreuwr	Canolradd	Uwch	Dim Cofnod
Darllen	206	43	8	11	119
Llafar	202	47	11	9	117
Deall	200	49	8	11	120
Ysgrifenedig	211	32	11	10	122

	Nifer y Cyflogeion Addysg yn ôl Sgôr 2017/18				
Cymhwysedd Cymraeg	Dim	Dechreuwr	Canolradd	Uwch	Dim Cofnod
Darllen	114	39	6	6	131
Llafar	106	50	4	6	130
Deall	110	42	6	6	132
Ysgrifenedig	123	32	5	5	131

	Nifer y Cyflogeion Cyllid yn ôl Sgôr 2017/18				
Cymhwysedd Cymraeg	Dim	Dechreuwr	Canolradd	Uwch	Dim Cofnod
Darllen	48	20	1	1	22
Llafar	49	19	1	1	22
Deall	48	17	1	1	25
Ysgrifenedig	50	18	1	1	22

	Nifer Cyflogeion y Gyfraith a Rheoliadau yn ôl Sgôr 2017/18				
Cymhwysedd Cymraeg	Dim	Dechreuwr	Canolradd	Uwch	Dim Cofnod
Darllen	159	26	5	8	28
Llafar	157	28	5	8	28
Deall	154	31	5	8	28
Ysgrifenedig	162	23	6	7	28

	Nifer y Cyflogeion Pobl a Newid Busnes yn ôl Sgôr 2017/18				
Cymhwysedd Cymraeg	Dim	Dechreuwr	Canolradd	Uwch	Dim Cofnod
Darllen	81	15	3	2	27
Llafar	73	23	3	2	27
Deall	75	20	3	3	27
Ysgrifenedig	81	14	3	2	28

	Nifer y Cyflogeion Adfywio, Buddsoddi a Thai yn ôl Sgôr 2017/18				
Cymhwysedd Cymraeg	Dim	Dechreuwr	Canolradd	Uwch	Dim Cofnod
Darllen	308	116	12	15	85
Llafar	269	142	16	15	95
Deall	278	139	15	15	94
Ysgrifenedig	299	116	14	14	131

	Nifer y Cyflogeion Ysgol yn ôl Sgôr 2017/18				
Cymhwysedd Cymraeg	Dim	Dechreuwr	Canolradd	Uwch	Dim Cofnod
Darllen	1269	851	166	155	773
Llafar	1146	977	163	152	776
Deall	1156	953	182	157	766
Ysgrifenedig	1293	841	154	143	783

	Nifer y Cyfarwyddwyr Strategol yn ôl Sgôr 2017/18				
Cymhwysedd Cymraeg	Dim	Dechreuwr	Canolradd	Uwch	Dim Cofnod
Darllen	1	1	0	0	1
Llafar	0	2	0	0	1
Deall	1	1	0	0	1
Ysgrifenedig	1	1	0	0	1

	Nifer y Cyflogeion Strydlun a Gwasanaethau Dinas yn ôl Sgôr 2017/18				
--	---	--	--	--	--

Cymhwysedd Cymraeg	Dim	Dechreuwr	Canolradd	Uwch	Dim Cofnod
Darllen	263	28	6	6	107
Llafar	262	29	5	7	107
Deall	261	30	4	7	108
Ysgrifenedig	267	27	4	6	106

Hyfforddiant

Dan Safon 128, mae'r Awdurdod dan orfodaeth i gynnig rhaglenni hyfforddi drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer y cyrsiau canlynol;

- Iechyd a Diogelwch ar gyfer Rheolwyr
- Cwrs Sefydlu Corfforaethol
- Rheoli Perfformiad
- Cwrs Sefydlu Rheoli Corfforaethol

Fodd bynnag, ni ofynnodd yr un aelod o staff i gael mynd ar y cyrsiau a gynigiwyd yn Gymraeg. Felly, roedd 0% o'r staff a gwblhaodd gwrs wedi cwblhau'r fersiwn Gymraeg. Bydd angen i'r Awdurdod werthuso argaeledd hyfforddiant Cymraeg yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod ac yn ystyried sut y caiff y sesiynau hyn eu hyrwyddo i staff.

Cyrsiau Cymraeg a hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith

Mae'r adran isod yn tynnu sylw at nifer y staff sydd wedi mynd ar gwrs Cymraeg neu hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith ym mlwyddyn ariannol 2018/19. Caiff cyrsiau iaith eu darparu mewn partneriaeth â Choleg Gwent, gan ddilyn y cwricwlwm cenedlaethol ar gyfer addysgu Cymraeg i oedolion. Nod y sesiynau ymwybyddiaeth o'r Gymraeg yw rhoi gwybodaeth ymarferol i staff o rwymedigaethau'r Awdurdod dan Fesur y Gymraeg. Un o'r rhesymau dros nifer isel y cyfranogwyr sy'n gysylltiedig â'r sesiynau ymwybyddiaeth iaith yw'r newid mewn darparwyr hyfforddi yn ystod blwyddyn ariannol 2018-19.

Cydnabyddir bod nifer y staff sy'n dewis hyfforddiant Cymraeg yn gymharol isel, ac rydym yn bwriadu blaenoriaethu marchnata'r cyrsiau sydd ar gael a chynyddu'r cyfleoedd i ddysgwyr a siaradwyr gymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu anffurfiol yn ystod 19/20.

Teitl y Cwrs (2018/19)	Nifer wedi cofrestru
Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg	6

Teitl y Cwrs (2018/19)	Nifer wedi cofrestru
Cwrs gwella i siaradwyr Cymraeg	0
Cyflwyniad deuddydd i'r Gymraeg	8
Cymraeg Gwaith, Cwrs Blasu 90 munud	16
Cwrs Lefel Mynediad 30 wythnos (Blwyddyn 1)	13
Cwrs Lefel Mynediad 30 wythnos (Blwyddyn 2)	6
Cwrs Lefel Sylfaen 30 wythnos (Blwyddyn 1)	7
Cwrs gwella i siaradwyr Cymraeg	8

Swyddi Newydd

Yn ystod blwyddyn ariannol 2018-19, hysbysebodd CDC 175 o swyddi gwag a newydd. Isod y ceir tabl yn amlinellu gofynion y Gymraeg sy'n gysylltiedig â'r swyddi hyn. Mae'r data hwn yn cynnwys staff craidd y cyngor a staff sy'n gweithio mewn ysgolion.

Gofynion Cymhwysedd Cymraeg ar gyfer swyddi newydd (pob swydd)

Nifer y swyddi newydd 2016/17	Nifer y swyddi newydd 2017/18
842	577

2017/18		
Gofyniad Cymhwysedd Cymraeg	Nifer	Canran o'r Cyfanswm
Hanfodol	26	4.5%
Dymunol	51	8.8%
Ddim yn angenrheidiol	499	86.5%
I'w dysgu yn rhinwedd y swydd	1	0.2%
Cyfanswm	577	
2018/19		
Gofyniad Cymhwysedd Cymraeg	Nifer	Canran o'r Cyfanswm
Hanfodol	5	2.9%
Dymunol	18	10.3%
Ddim yn angenrheidiol	151	86.3%
I'w dysgu yn rhinwedd y swydd	1	0.1%
Cyfanswm	175	

Pe byddem yn tynnu'r staff sy'n gweithio mewn ysgolion o'r set ddata hon a chanolbwyntio'n unig ar staff craidd y cyngor, gallwn weld cwmp sylweddol yng nghanran y swyddi lle mae'r Gymraeg yn 'Hanfodol' ac yn 'Ddymunol'. Mae hyn yn awgrymu bod gennym gyfran uwch o swyddi Cymraeg Hanfodol a Dymunol yn cael eu hysbysebu mewn ysgolion nag yng ngwasanaethau craidd y cyngor. Dros y flwyddyn i ddod byddwn yn ailffocysu ein hymdrechion i ddenu siaradwyr Cymraeg i swyddi allweddol ar draws yr Awdurdod.

Gofynion Cymhwysedd Cymraeg ar gyfer swyddi newydd (ac eithrio ysgolion)

Nifer y swyddi newydd 2016/17	Nifer y swyddi newydd 2017/18	Nifer y swyddi newydd 2018/19
600	347	128

2017/18		
Gofyniad Cymhwysedd Cymraeg	Nifer	Canran o'r Cyfanswm
Hanfodol	6	1.7%
Dymunol	43	12.4%

Ddim yn angenrheidiol	298	85.9%
I'w dysgu yn rhinwedd y swydd	0	0%
Cyfanswm	347	
2018/19		
Gofyniad Cymhwysedd Cymraeg	Nifer	Canran o'r Cyfanswm
Hanfodol	1	0.1%
Dymunol	13	10.2%
Ddim yn angenrheidiol	114	89.1%
I'w dysgu yn rhinwedd y swydd	0	0.0%
Cyfanswm	128	

Cwynion

Ym mlwyddyn ariannol 2018-19, derbyniodd Cyngor Casnewydd 0 cwyn yn ymwneud â diffyg cydymffurfiaeth â'r safonau yn ôl yr hyn a gofnodwyd ar ein system Rheoli Perthnasoedd â Chwsmeriaid.

Dros y flwyddyn ariannol mae CDC wedi ymdrin ag 1 cwyn gan swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ynghylch diffyg cydymffurfio â'r safonau.

Roedd y cwyn yn ymwneud â'r methiant i gydymffurfio â'r safon ganlynol:

Safon 52: Methu â chynnal gwefannau dwyieithog

Er bod yr Awdurdod yn cydnabod yr angen i wella'r modd y mae'n cofnodi cwynion sy'n ymwneud â safonau, yn enwedig o fewn y RhPC (CRM), rydym yn hyderus mai'r ymagwedd rydym wedi'i mabwysiadu at ddatrys cwynion yw un sy'n rhoi cyfle ar gyfer dysgu gwersi ar lefel sefydliadol ynghyd â chyfle i newid. Rydym yn parhau i weithio'n gadarnhaol gyda Chomisiynydd y Gymraeg ac yn edrych ymlaen i weld hyn yn parhau dros y flwyddyn i ddod.

Dyddiad: Mehefin 2019
Awdur: Swyddog Cydraddoldeb